# Gwaith Cartref?

## Dim problem



cronfa glyndŵr

www.cronfaglyndwr.cymru

**Mae eich Cymraeg chi yn ddigon da i helpu gyda gwaith cartref eich plentyn.**

Cyngor **Sir Gâr**

**Carmarthenshire** County Council

# A fyddaf yn gallu helpu gyda Gwaith Cartref Cymraeg fy mhlentyn?

- Mae gwaith cartref fel arfer yn **estyniad o waith dosbarth.** Mae gan eich plentyn syniad go lew o beth i wneud.
- Mae'n bwysig cofio mai **gwaith cartref eich plentyn** ydyw yn hytrach na'ch gwaith chi! Ni ddylech chi wneud y gwaith cartref drostyn nhw.
- **Peidiwch poeni os nad ydy'ch Cymraeg yn berffaith**. Bydd yr athrawon yn gofalu bod iaith eich plentyn yn datblygu'n dda.
- Hyd yn oed os nad ydych yn beldroediwr gwych, mae chwarae pêl-droed gyda'ch plentyn yn **gwella ei sgiliau**.

**Y peth pwysicaf yw bod yn gadarnhaol a rhoi anogaeth.**

**Cofiwch,**
**'Dwy iaith, dwywaith y dewis!'**

# Syniadau ar sut i helpu gyda Gwaith Cartref

- Mae **anogaeth yn bwysicach** nag unrhyw beth. Eisteddwch gyda'ch plentyn a siaradwch am y tasgau dan sylw. Fe fyddwch yn synnu pa mor dda mae'ch plentyn yn gallu egluro'r dasg i chi gyda'i eiriau ei hun.
- Os nad ydych yn gyfarwydd â'r termau, **gofynnwch i'ch plentyn esbonio.** Wrth fynd drwy'r broses o egluro, fe fyddant yn dod i ddeall yn well eu hunain.
- Ewch i'r **nosweithiau rhieni** i gael gwybodaeth. Gofynnwch oes canllaw adolygu neu adnoddau eraill ar gael i roi cymorth gyda gwaith cartref.
- Mae cyfieithiad o holl dermau addysg y plant ar gael yr y **Geiriadur 'Termau' ar lein** neu'r **Ap Geiriaduron** ar eich ffôn .
- Dangoswch ddiddordeb yng ngwaith ysgol eich plentyn. Os oes angen cymorth arnynt, anogwch nhw i ofyn am help oddi wrth yr **athrawon**.
- Os ydych chi'n poeni am unrhyw beth, cysylltwch â'r ysgol a siaradwch â'r athro - **byddant eisiau helpu.**
- Gwnewch yn siwr eich bod yn **gofyn i'ch plentyn** yn rheolaidd a oes gwaith cartref wedi'i osod.

**Y peth pwysicaf yw cefnogi**
**er mwyn adeiladu hyder eich plentyn.**

Fe fydd siarad Cymraeg gartref yn cryfhau addysg eich plentyn.

Does dim angen Cymraeg perffaith. Mae eich tafodiaith yn cyfoethogi Cymraeg eich plentyn.

Does dim angen i chi boeni am ruglder Saesneg eich plant. Fe fydd eu sgiliau Saesneg yn datblygu'n naturiol gan fod Saesneg ym mhob man.

# Sgwrsiwch yn Gymraeg gartref

Mwynhewch Ddarllen!

Beth am...

- wylio rhaglenni teledu Cymraeg gyda'ch gilydd, fel **Cyw** a **Stwnsh** ar **S4C** neu **S4C Clic**, neu wrando ar **Radio** Cymru yn y **car**,
- weld faint o ieithoedd gallan nhw gyfri ynddynt. Anogwch eu diddordeb mewn ieithoedd eraill gan eu bod yn **ddwyieithog yn barod**.
- fynd i Siopau llyfrau Cymraeg neu i'ch **llyfrgell leol** i fenthyg llyfrau, DVDs a gemau Cymraeg,
- ddysgu **rhigymau** a **chaneuon** gyda'ch gilydd
- gwtsio a **darllen storïau** ar y soffa. Mae llawer o lyfrau Cymraeg da ar gael. Peidiwch â phoeni am fod yn berffaith!

**Rhowch gynnig arni!**



# Gwaith Cartref yn yr Uwchradd

1. Gofynnwch i'ch plentyn egluro'r dasg i chi yn Saesneg neu yn Gymraeg. Gwiriwch unrhyw eirfa neu dermau anodd gyda'ch gilydd os oes angen gan ddefnyddio geiriaduron ar-lein neu'r **Ap Geiriaduron.**
2. Trafodwch y gwaith yn **Gymraeg** neu'n **Saesneg**. Peidiwch poeni os ydych chi'n gorfod defnyddio geiriau technegol yn Saesneg wrth drafod.
3. **Peidiwch poeni** os ydy'ch plentyn yn cywiro eich Cymraeg. Bydd hyn yn magu eu hyder ieithyddol nhw.
4. Anogwch eich plentyn i wirio ei atebion drwy ddefnyddio **Cysill ar-lein.**
5. Awgrymwch i'ch plentyn lawrlwytho'r ap yma ar ei ffôn Android, iPad neu iPhone am ddim. Fe fydd yn rhoi'r eirfa gywir yn Saesneg ac yn Gymraeg iddo ar flaenau ei fysedd.






# Geiriaduron defnyddiol i ddisgyblion uwchradd

| Math | Enw'r geiriadur | Gwefan |
|---|---|---|
| Cyffredinol | Geiriadur Bangor | www.geiriadur.bangor.ac.uk |
| O'r Saesneg i'r Gymraeg (cynhwysfawr iawn) | Geiriadur yr Academi | www.geiriaduracademi.org |
| O'r Gymraeg i'r Saesneg (cynhwysfawr iawn) | Geiriadur Prifysgol Cymru | www.geiriadur.ac.uk |
| Geiriadur termau (defnyddiol ar gyfer gwaith arbenigol, iechyd, hamdden, gwasanaeth sifil ayyb.) | Porth Termau Cenedlaethol Cymru (Prifysgol Bangor) | www.termau.cymru |
| O'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg Yn cynnwys tips gramadegol ac enghreifftiau o sut i redeg berfau. | Geiriadur Cymraeg Gomer | www.gweiadur.com (Bydd angen i chi gofrestru am ddim i'w ddefnyddio) |

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Sir Gâr
Carmarthenshire

Os am wella eich Cymraeg chi, mae na gyrsiau ar gael, ewch i: **dysgucymraeg.cymru** neu ffoniwch

01267 246862